# Y Pwyllgor Cyllid

## Cofnodion FIN (3)-13-08

**Dyddiad: Dydd Iau 9 Hydref 2008**
**Amser: 9.00am - 10.30am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Angela Burns (Cadeirydd), Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Peter Black, Gorllewin De Cymru
Nick Bourne, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Huw Lewis, Merthyr Tudful a Rhymni
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

John Grimes, Clerc
Abigail Phillips, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Andrew Davies, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus
Jeff Andrews, Cynghorwr Arbenigol
Christine Daws, Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Piers Bisson, Pennaeth Cynllunio Ariannol, Llywodraeth Cynulliad Cymru

### Eitem 1: Ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Chris Franks, Ann Jones a Jenny Randerson. Roedd Lorraine Barrett yn dirprwyo ar ran Ann Jones ac roedd Peter Black yn dirprwyo ar ran Jenny Randerson.

### Eitem 2: Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2009-10

**Papur:**

FIN(3) 13-08 (p1) Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2009-10
FIN(3) 13-08 (p2) Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru - Dyraniadau adnoddau ac arian parod dangosol ar gyfer 2010 - 2011
FIN(3) 13-08 (p3) Dogfen naratif cyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru gerbron y pwyllgor.

2.2 Bydd y Gweinidog yn paratoi nodyn ar gyfer y pwyllgor ynghylch pa fanciau y mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyfrifon â hwy a'r uchafswm y gellir ei ddal yn y cyfrifon hynny. Bydd y Gweinidog hefyd yn esbonio a oes gan Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yr hawl i ddal cyfrifon banc ar gyfer dibenion buddsoddi.

2.3 Bydd y Gweinidog yn paratoi nodyn i'r pwyllgor yn rhoi manylion am y cynllun achub morgeisi. Bydd y Gweinidog hefyd yn rhoi manylion ynghylch lle y cynhaliwyd cynlluniau peilot i brynwyr am y tro cyntaf ac, yn arbennig, pam na ddewiswyd de-ddwyrain Cymru ar gyfer cynllun peilot.

2.4 Bydd y Gweinidog yn paratoi nodyn i'r pwyllgor ynghylch y berthynas rhwng y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol a'r cyllidebau cyfalaf sydd dan ofal Gweinidogion.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Hydref 2008**